Challenger®
CYSYLLTIADAU BUSNES SYDD WEDI ENNILL GWOBRAU

Cysylltiadau Busnes sydd wedi ennill gwobrau

Cynnwys

Pam Challenger? 04

Cynnyrch

- Symudol 06
- Tracio 07
- Gwasanaethau Cwsmeriaid 08
- Systemau Ffôn 09
- Cynnal Gwasanaethau yn y Cwmwl 10
- Cysylltu 11



Cynnyrch a gwasanaethau o'r radd flaenaf gan arbenigwr cysylltiadau busnes annibynnol, arobryn.

Gam ein bod yn un o'r arbenigwyr annibynnol Busnes i Fusnes mwyaf yn y DU, rydyn ni'n gallu teilwra pecynnau i gyfarfod â'ch holl anghenion a darparu arloesedd a rhagoriaeth.

YN DARPARU:

pob cysylltiadau busnes ERS **1991**





mewn un lle

O_2 Partner Uniongyrchol

- Pecynnau a chynnyrch wedi'u teilwra i chi
- Telerau ac amodau tryloyw
- Enillwyr gwobrau rhagoriaeth ddigidol a rhagoriaeth cwsmeriaid O2
- Cwmni sy'n trin pob cwsmer a staff yn deg
- Ein cwsmeriaid sy'n dod gyntaf – bob amser

Adeiladau a rheoli eich fflyd chi o ffonau symudol busnes.

SYMUDOL

Amrywiaeth eang o Setiau Llaw Technolegau Diweddaraf
Dyfeisiadau 5G
O2, EE a Vodafone
Tabledi
Dyfeisiadau Cadarn
Data ar gyfer unrhyw Ddyfais
Trawsrwydweithio Byd Eang
Cysylltedd M2M

Ffonau Symudol i Fusnesau

Y cyfan o'r dewis, dim o'r helbul

Gyda phecynnau llais a data wedi'u teilwra gan Challenger cewch y cyfan rydych ei eisiau a dim byd arall.

Drwy weithio gydag O2, EE a Vodafone gallwn ni gynnig y gwasanaethau, cysylltiadau a'r bargeinion gorau un i'n cwsmeriaid.

Hefyd, gydag Apple, Samsung, Sony, Google a llawer mwy, mae gennym y dechnoleg ddiweddaraf i chi gael y set llaw rydych ei eisiau a'r holl ddata rydych ei angen.

Band Eang Symudol

Hyblyg, cyflym a dibynadwy

Gyda dewis helaeth Challenger o gynnyrch data yn unig, cewch yr amrywiaeth ehangaf o ddewisiadau i ateb eich gofynion data.

A oes gennych sawl dyfais neu angen cynllun hynod gyflym, hyblyg, gallwn ffurfweddu ac adeiladu'r hyn rydych ei angen o gyn lleied ag 1GB. Sy'n golygu y gallwch aros ar lein drwy'r amser, lle bynnag yr ydych.

M2M

Rheolaeth cysylltedd deallus, effeithlon

Mae atebion cysylltedd peiriant i beiriant (M2M) Challenger yn tynnu eich data'n llyfn gan drawsnewid eich gallu i reoli staff a systemau ar safle neu o bell.

Byddwn yn eich helpu i gyfuno eich bydoedd materol a digidol er mwyn i chi allu symud ymlaen gyda busnes eich busnes.

Gyda chynnyrch symudol Challenger, byddwch wedi'ch cysylltu bob amser.

0800 269 546 | info@cmc.uk.net

Monitro eich asedau a chadw eich pobl yn ddiogel.

TRACIO

Tracio Cerbydau a Dyfeisiadau
Monitro Teithiau Staff
Adrodd mewn Amser Real
Hanes Teithiau
Amddiffyn Gweithwyr Unig
Tracio Symudol
Ymddygiad Gyrwyr

Atebion Camera

Adrodd mewn Amser Real

Monitro teithiau eich staff yn hawdd a dod i ddeall manylion eu teithiau megis cyfartaledd cyflymdra, defnyddio tanwydd, taflenni amser a lleoliadau.

Mae Challenger yn aelod cyswllt o Gynllun Cydnabod Gweithredwyr Fflud (FORS). Drwy weithio i reoli eich Risg Ffordd Cysylltiedig â Gwaith (WRRR) byddwch chi a'ch staff yn ddiogel.

Tracio Cerbydau ac Asedau

Tracio wrth fynd

Os oes gennych chi dîm sy'n treulio llawer o amser yn teithio i ddanfon eich nwyddau neu'ch gwasanaethau, mae'n hanfodol eich bod yn gallu eu tracio.

Casgliad o wasanaethau lleoli a thracio amser real yw cynnyrch tracio a monitro Challenger, wedi'u trefnu'n becynnau hwylus a hawdd eu defnyddio. Byddwch yn arbed arian ac amser gydag adroddiadau lleoliad, larymau, tracio amser, hanes teithiau a mwy.

Amddiffyn Gweithwyr Unig

Diogelwch i'ch staff

Mae ble mae eich pobl yn bwysig i'w diogelwch. Byddwch yn lleihau'r risg i weithwyr unig yn y maes gydag Amddiffyniad Gweithwyr Unig Challenger.

Mae ein ap, sy'n arwain y farchnad ac sy'n cael ei osod ar ffonau symudol eich gweithwyr, yn cynnwys mesurau diogelwch fel Gwiriadau Lles Arferol (RWC) a Rhybuddion Panig SOS.

Yr heddwch meddwl rydych ei angen pan fyddwch yn anfon eich gweithwyr hwnt ac yma.

0800 269 546 | info@cmc.uk.net

Help a chefnogaeth gyfeillgar pan fyddwch ei angen.

GWASANAETH CWSMERIAID

Rheoli Cyfrif Penodol
O Holiadau Bilio i Gyngor Technegol
Phone Care Assurance

Cefnogaeth Cwsmeriaid

Yma i Chi

Yn ogystal â'ch Rheolwr Cyfrif penodol, mae'r tîm yma i'ch helpu gydag unrhyw gwestiynau ac i'ch cadw ar y blaen.

Maen nhw hefyd yn gallu cynghori gyda phroblemau technegol fel trosglwyddo data o ffôn i ffôn, sefydlu e-bost a diweddariadau meddalwedd i chi allu cadw eich dyfeisiau i ddal i weithio ar eu gorau.

Gofal Ffonau

Amddiffyniad cynhwysfawr

Mae colli neu ddifrodi eich ffonau symudol a'ch tabledi yn broblem ond does dim rhaid i hynny fod yn drychineb. O cyn lleied â £2 y mis, mae ein Phone Care Assurance yn cymryd gofal o ladrad, colled neu ddifrod damweiniol.

Gallwch anfon eich tîm allan yn hyderus i wneud eu gwaith gan wybod eich bod wedi'ch diogelu yn erbyn colli unrhyw offer.

Rheoli Cyfrif

Cyngor rhagweithiol, wedi'i deilwra ar eich cyfer chi

Bydd ein Rheolwyr Cyfrif yn gweithio'n agos gyda chi, yn cysylltu â chi trwy'r flwyddyn i gynnig cyngor ac i wneud yn siŵr fod eich tariff, dyfais, a'ch gwasanaethau yn dal i gyfarfod â'ch anghenion busnes.

Yn Challenger, gallwn wneud yn siŵr eich bod yn cael y bargeinion gorau posibl a'ch bod yn eich cadw ar y blaen gyda'r dechnoleg orau, fwyaf diweddar.

Siaradwch gyda ni heddiw i ganfod beth all Challenger ei wneud i chi.

0800 269 546 | info@cmc.uk.net

Llinellau tir, Llais dros y Rhyngrwyd a meddalwedd ar gyfer pob maint o fusnesau.

SYSTEMAU FFÔN

Llinellau a Meddalwedd Ffôn
Galwadau Cynhadledd a Fideo
Pecynnau hyblyg Llais dros y Rhyngrwyd
Cysylltedd Hyblyg Clir a Syml
Uwch System SIP Cost Effeithiol

Protocol Llais Dros y Rhyngrwyd (VoIP)

Lleihau Costau a chynyddu cynhyrchedd

Gellir addasu ein tariffiau ar gyfer eich anghenion busnes chi gyda nodweddion fel Adnabyddiaeth Galwyr, Dargyfeirio Galwadau, Negeseuon Llais a Gweithiwr Gartref.

O unig fasnachwyr i ganolfannau galw sawl lleoliad, mae gennym ni'r ateb i chi.

Llinellau Ffôn a Meddalwedd

Cadwch mewn cysylltiad gyda chydweithwyr a chwsmeriaid.

Eich system ffôn yw conglfaen eich busnes ac mae'n gwneud synnwyr defnyddio grym technoleg i wella eich system ffôn.

Yn dibynnu ar faint neu ofynion eich busnes, gallwn gynnig amrywiaeth o wasanaethau i wneud yn siŵr eich bod yn canfod yr ateb iawn.

Uwch System SIP

Aros yn gost effeithiol

Mae Uwch System SIP, system hynod gyflym, rhatach nag ISDN, yn clymu sawl gwasanaeth yn becyn sengl y gellir ei reoli'n hawdd.

Dim rhagor o brydlesu sawl llinell o sawl gwahanol fan nag allforion pyrth drud. Gadewch i ni sefydlu eich Uwch System SIP a byddwch yn medi'r canlyniadau o gysylltedd hyblyg, clir a syml.

Cysylltwch â ni ynghylch eich holl anghenion cyswllt busnes.

0800 269 546 | info@cmc.uk.net

Rheoli a chael mynediad at ffeiliau o bell.

GWASANAETHAU YN Y CWMWL

Cynyddu Cynhyrchedd Staff
Data Diogel
Storio'n Ddiogel Ar Lein
Rheoli yn y Cwmwl

Office 365

Cynnal cynhyrchedd, wrth symud

Gydag Office 365, gallwch chi a'ch tîm gael holl raglenni Office Suite Microsoft ar bob un o'ch dyfeisiadau.

Wrth eu desgiau neu wrth symud o gwmpas, bydd eich staff yn gallu defnyddio apiau fel Word, Excel, Outlook ac Exchange, lle bynnag y byddan nhw.

Rheoli Dyfeisiadau Symudol

Aros mewn rheolaeth

Mae'n hawdd ac yn gyflym ddefnyddio pecynnau MDM Challenger gyda rhyngwyneb greddfol a llyfn a sicrhau y gallwch ddiogelu eich data rhag ymosodiadau.

Maen nhw'n cadw eich ffonau symudol, tabledi a gliniaduron yn ddiogel hyd yn oed pan mae eich tîm yn gweithio o bell.

Cadw yn y Cwmwl

Storio'n ddiogel ar lein

Teclyn cadw ar lein a rheoli yn y cwmwl yw Box gan O2 sy'n eich galluogi i rannu gwybodaeth yn hawdd gyda gweddill eich tîm gan ei gadw'n ddiogel ond eto ar gael wrth symud o gwmpas.

Gyda theclynnau sy'n helpu cynhyrchedd eich tîm ac i gadw eich data'n ddiogel, bydd gwasanaethau'r cwmwl Challenger yn helpu eich busnes i ddal ati.

Heddwch meddwl i'ch gweithwyr, data a meddalwedd. Cysylltwch â ni heddiw.

0800 269 546 | info@cmc.uk.net

Busnes mwy effeithlon gyda chysylltedd cyflym, dibynadwy.

CYSYLLTU

Gwarantu Cyflymder Lanlwytho
Gwasanaethau Band Eang Sefydlog
Aros ar Lein ddydd a nos
Uwch System SIP Cost Effeithiol

ADSL a Band Eang Ffibr

Gwasanaethau band eang sefydlog

Yn ADSL neu'n Ffibr, gall Challenger gynghori eich busnes pa fath o wasanaeth band eang sydd orau ar gyfer eich gofynion chi.

Eich helpu chi i ddarparu gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i anghenion eich busnes, yn fach neu'n fawr.

Prydlesu Llinellau

Dal i gysylltu

Rydyn ni'n deall pa mor bwysig i fusnesau yw dal i fod wedi cysylltu, ac mewn marchnad ryngwladol mae hynny'n aml yn golygu aros ar lein 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae Challenger yn cynnig amrywiaeth eang o lwybryddau, switshis a waliau tân sy'n galluogi pob cwsmer i ffurfio'r union system ar gyfer ei anghenion.

Uwch System SIP

Aros yn gost effeithiol

Mae Uwch System SIP, system gyflymach, ratach nag ISDN, yn dod â nifer o systemau ynghyd i ffurfio un cynnyrch hawdd ei reoli.

Dim mwy o brydlesu llawer o linellau mewn llawer o fannau na phyrth dargyfeirio drud. Dim ond gadael i ni sefydlu eich Uwch System SIP a medi manteision cysylltedd hyblyg, clir a syml.

Cysylltwch â ni a darganfod cysylltedd dibynadwy, cyflym.

0800 269 546 | info@cmc.uk.net

Challenger®

CYSYLLTIADAU BUSNES SYDD WEDI ENNILL GWOBRAU

Cysylltwch â ni a darganfod sut y gall Challenger helpu eich busnes

0800 269 546
info@cmc.uk.net